

Amgueddfa Stori Caerdydd Gweithdai Dysgu Gydol Oes



DIDDOROL, DIFYR A RHYNGWEITHIOL

Amgueddfa Stori Caerdydd
Yr Hen Lyfrgell
Yr Aes
Caerdydd
CF10 1BH

**Cardiff
Story**
Museum

Amgueddfa
Stori
Caerdydd

029 2034 6214
storicaerdydd@caerdydd.gov.uk
www.storicaerdydd.com
www.facebook.com/cardiffstory
[@thecardiffstory](https://www.instagram.com/thecardiffstory)



Rydyn ni'n amgueddfa sy'n adrodd stori Caerdydd.

Rydyn ni'n amgueddfa hanes cymdeithasol sy'n golygu ein bod ni'n defnyddio straeon personol pobl i adrodd hanes Caerdydd.

BETH YDYN NI'N EI WNEUD?

Gall ymweld ag Amgueddfa Stori Caerdydd gynnig profiad dysgu diddorol, difyr a rhyngweithiol i ddysgwyr o unrhyw oedran.

Mae ein horiellau yn edrych ar y newidiadau cymdeithasol, diwylliannol, technolegol ac economaidd sydd wedi digwydd yn y ddinas drwy fywydau ei phobl.

Os ydych chi'n chwilio am weithdy dysgu ar unrhyw beth sy'n ymwneud â Chaerdydd, sut a pham y mae'r ddinas wedi newid a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar fywydau pobl... cysylltwch â ni nawr!

BETH SYDD YN YR ORIELAU?

Mae Caerdydd Mewn Cyd-destun yn ystyried sut y trawsnewidiodd Caerdydd o fod yn dref farchnad fechan yn y 1300au i un o borthladdoedd mwya'r byd yn y 1900au, i'r brifddinas gosmopolitan sydd yma heddiw.

Mae arddangosiadau rhyngweithiol yn rhoi'r cyfle i chi grwydro drwy straeon pobl y ddinas, eu cartrefi, eu bywydau gwaith, yr adeiladau a'r drafnidiaeth a ddefnyddiwyd ganddyn nhw, y dociau, y cymunedau cynharaf a ymgartrefodd yng Nghaerdydd, perthynas Caerdydd â'r cymoedd a Chaerdydd fel dinas fodern.

Mae Lab y Ddinas yn cynnig profiad hyn yn oed yn fwy rhyngweithiol i blant ac oedolion. Mae Den Dewi yn annog dysgwyr yn y cyfnod sylfaen (0-5 oed) i ddysgu drwy wisgo i fyny a chwarae rôl.

Mae'r Gorsafoedd Gweithredu yn annog dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 (7-11 oed) i ystyried y pynciau siopa, mudo a'r Ail Ryfel Byd. Mae Astudiaethau Achos yn rhoi cyfle i ddysgwyr o bob oedran edrych ar eu hanes a'u treftadaeth.





DYSGU GYDOL OES

Gall y gweithdai canlynol gael eu haddasu yn unol ag anghenion eich grŵp. Ffoniwch ein Swyddog Dysgu ar 029 2034 6214 neu e-bostiwch storicaerdydd@caerdydd.gov.uk.

Gallwn gynnig rhai o'r gweithdai canlynol oddi ar y safle.

Hanes Llafar

Amser - 4 awr

Cost – £240 (+TAW)

Uchafswm cyfranogwyr - 15

Caiff cyfranogwyr eu cyflwyno i Hanes Llafar gan feithrin dealltwriaeth o - beth yw Hanes Llafar, pam fod pobl yn ei ddefnyddio, trosolwg o'i hanes, arfer gorau mewn perthynas â Hanes Llafar, paratoi ar gyfer cyfweiliad, cynnal cyfweiliad, technegau cyfweld da a drwg a sut i ofyn cwestiynau agored.

Bydd y sesiwn yn dod i ben gyda chyfranogwyr yn cyfweld â'i gilydd neu wirfoddolwyr os oes rhai ar gael.

Creu arddangosfa

Amser - 4 awr

Cost – £240 (+TAW)

Uchafswm cyfranogwyr - 15

Mae hwn yn weithdy rhyngweithiol lle bydd cyfranogwyr yn dysgu sut y gwnaethon ni greu Amgueddfa Stori Caerdydd a sut y gallan nhw greu eu harddangosfa eu hunain.

Bydd cyfranogwyr yn edrych ar elfennau gwahanol sy'n gysylltiedig â chreu arddangosfa, adnoddau dehongli, themâu a negeseuon allweddol, dulliau dysgu gwahanol, cynulleidfaoedd a hygyrchedd.



Stori Caerdydd

Amser - 2 awr

Cost – £120 (+TAW)

Uchafswm cyfranogwyr - 15

Ar daith arbennig o'n horielau, byddwn yn darganfod sut y trawsnewidiodd Caerdydd o fod yn dref farchnad fechan yn y 1300au i un o borthladdoedd mwya'r byd yn y 1900au, i'r brifddinas gosmopolitan sydd yma heddiw.

Bydd hefyd yn dysgu sut y gwnaethon ni greu'r amgueddfa, a'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Perffaith ar gyfer y rheini sydd am grwydro'r orielau a dysgu mwy am yr amgueddfa.



Stori Mudo: Cymunedau amrywiol Caerdydd

Amser - 1 awr

Cost – £60 (+TAW)

Uchafswm cyfranogwyr - 15

Dysgwch pam fod pobl o bedwar ban byd wedi heidio i Gaerdydd a'r hyn y maen nhw wedi'i gyfrannu i'r ddinas.



YMWELIAD HUNAN-DYWYS

Amser a argymhellir: 1.5 – 2 awr

Cost - £1 (+TAW) y dysgwr

Os byddai'n well gennych arwain eich ymweliad eich hun, gallwn roi taflenni gwaith i chi.

Gall ein hystafell Ddysgu fod ar gael am ginio am gost ychwanegol o £10.

Trefnwch ymweliad drwy gysylltu â'n Swyddog Dysgu ar 029 2034 6214 neu e-bostiwch storcaerdydd@caerdydd.gov.uk

Cardiff
Story
Museum

Amgueddfa
Stori
Caerdydd

Y CAM NESAF

Os oes gennych ddiddordeb yn unrhyw un o'n gweithdai cysylltwch â'n Swyddog Dysgu ar 02920 346214 neu anfonwch e-bost i storcaerdydd@caerdydd.gov.uk